# CYNGOR SIR YNYS MÔN

| | |
|---|---|
| **ADRODDIAD I** | **BWRDD COMISIYNWYR** |
| **DYDDIAD** | **3 MEDI 2012** |
| **PWNC** | **ADRODDIAD CHWARTER CYNTAF – MONITRO CYLLIDEB REFENIW 2012-13** |
| **DEILYDD PORTFFOLIO** | **Y COMISIYNYDD MICK GIANNASI**<br>**Y CYNGHORYDD JOHN CHORLTON** |
| **SWYDDOG(ION) ARWEINIOL** | **PENNAETH GWASANAETH (CYLLID)** |
| **SWYDDOG CYSWLLT** | **EINIR WYN THOMAS (EST. 2605)** |

**Rheswm am yr adroddiad:**

Monitro'r Gyllideb Refeniw: y Comisiynwyr sy'n gyfrifol am fonitro'r gyllideb ar lefel gorfforaethol ac am wneud penderfyniadau i drosglwyddo arian neu i gywiro gorwariant o fewn yr Awdurdod.

## A. Rhagarweiniad / Cefndir / Materion

Hwn yw'r adroddiad cynnydd cyntaf ar gyllideb refeniw 2012-13, ac mae'n ymwneud yn bennaf â'r sefyllfa ar 30 Mehefin 2012 gyda rhagamcanion wedi eu ddiweddaru ar gyfer risgiau i'r cyllidebau corfforaethol a'r cyllidebau risg gorfforaethol.

Mae'r tabl yn Atodiad A yn crynhoi gwariant yn erbyn y gyllideb refeniw ar gyfer pob Gwasanaeth ar gyfer chwarter cyntaf y flwyddyn. Ceir dadansoddiad pellach yn Atodiad B. Nid oes unrhyw drosglwyddiadau ariannol y mae angen i'r Comisiynwyr eu cymeradwyo.

Mae'r adroddiad yn pwysleisio'r sefyllfa gyda'r cyfrifon a'r cyllidebau corfforaethol ac yn dwyn sylw at eitemau neu batrymau sylweddol o fewn cyllidebau Gwasanaeth. Mae hefyd yn rhagamcanu'r canlyniadau ar gyfer 2012-13.

## B – Ystyriaethau

### 1. CYLLIDEBAU GWASANAETH

Dangosir isod y patrymau mewn perthynas â'r Gwasanaethau.

#### 1.1 Addysg

Fel yn y blynyddoedd diwethaf, mae pwysau mawr ar y gyllideb integreiddio ar gyfer ysgolion uwchradd. Mae gorwariant o £165k yn erbyn y gyllideb a broffiliwyd erbyn diwedd Chwarter un, ac er bod gwaith yn cael ei wneud i ostwng lefelau staffio, rhagwelir y bydd gorwariant o £400k erbyn diwedd y flwyddyn. Yn ogystal, rhagwelir gorwariant yn y gyllideb integreiddio ar gyfer ysgolion cynradd (£100k), ar brydau ysgol (£100k) oherwydd galw isel, ac yn y maes staff lles addysg (£44k). Rhagwelir felly y bydd cyfanswm gorwariant o £644k sydd angen sylw.

**1.2 Rheoli Gwastraff**

Mae'r gwasanaeth wedi nodi gorwariant posib oddeutu £50k ar ddiwedd y flwyddyn. Mae hyn yn gyfuniad o lai o incwm o Brosiect Trydan Penhesgyn (£100k) ac oedi gyda'r Rhaglen Blaenoriaethau Fforddiadwy o ran gwneud arbedion yn sgil cau toiledau cyhoeddus (£30k) - y cyfan yn cael ei wrthbwyso gan wariant llai ar Gael Gwared ar Wastraff (£80k). Mae gan y gwasanaeth hwn ddigon o arian wrth gefn i ddelio gyda'r gorwariannau.

**1.3 Priffyrdd**

Mae'r gwasanaeth yn rhagweld y bydd yr incwm £160k yn llai na'r targed. Mae £85k o gostau diswyddo hefyd nad oes darpariaeth gyllidebol ar eu cyfer. Dylai'r gwasanaeth fedru ymdopi o fewn ei adnoddau.

**1.4 Gwasanaethau Cymdeithasol**

Mae risg y bydd gorwariant o hyd at £1miliwn yn y gwasanaeth oni bai y cymerir camau ar fyrder i liniaru'r sefyllfa gyfredol. Y prif risgiau yw y gall y cynnydd yn y galw am Leoliadau Ansafonol i Blant a'u cost uchel (a nodwyd ar ddiwedd y llynedd) olygu gorwariant o £500k. Mae risg na fyddir yn medru gwneud y toriadau llawn sy'n ofynnol yn y Gwasanaethau Oedolion (hyd yma, nid yw'r gwasanaeth yn hyderus y bydd yn llwyddo i dorri £435k o'r cyfanswm o £960k sy'n angenrheidiol) Mae'r gweddill oherwydd gwahanol orwariannau eraill. Er bod y gwasanaeth yn cymryd camau i gywiro'r sefyllfa, erys risg sylweddol ar hyn o bryd o orwariant sylweddol ar ddiwedd y flwyddyn.

**1.5 Gwasanaeth Hamdden a Diwylliant**

Mae'r gwasanaeth yn rhagweld diffyg o £258k erbyn diwedd y flwyddyn ac mae £170k ohono oherwydd gostyngiad disgwyliedig mewn incwm, yn rhannol oherwydd cau'r pyllau nofio a'r caffis yn ystod gwaith adnewyddu, ond gyda gostyngiadau yn yr incwm o'r cwrs golff a'r amgueddfeydd ac orielau.

**1.6 Gwasanaethau Eraill**

Mae'r gwasanaethau eraill yn gyffredinol yn rhagweld gorwariannau. Serch hynny, dylid medru cywiro hynny, yn y rhan fwyaf o achosion, trwy gymryd camau lliniarol gan gynnwys defnyddio cronfeydd wrth gefn os oes rhai. Mae hyn yn wahanol i'r patrwm o danwario yn y blynyddoedd diwethaf.

## 2. CYLLIDEBAU CORFFORAETHOL A CHYLLIDEBAU RISG GORFFORAETHOL

| | Gwreiddiol £000 | Rhagamcan diwedd y flwyddyn £000 | Eglurhad |
|---|---|---|---|
| Lleoliadau Allsirol – Gwasanaethau Cymdeithasol | 1,559 | +200 | Parhad o batrwm y llynedd |
| Lleoliadau Allsirol - Addysg | 1,028 | | |
| Digartrefedd | 307 net | -100 | Nid yw effaith lawn diwygio'r System Les wedi ei gweld hyd yma |
| Budd-daliadau | 20,721 gross<br>28 net | +145 | Effaith rheolau budd-dal newydd ynghylch digartrefedd |
| Taliadau Llog a Dyled | 7,077 | | |
| Costau Corfforaethol a Democrataidd | 4,910 | | Ansicrwydd ynghylch lwfansau i aelodau |
| Y Dreth Gyngor | 26,704 | | Risg o ostyngiad o 0.5% |
| **Rhagamcan** | | 245 | |

**2.1** Disgwylir y bydd y gyllideb ar gyfer Digartrefedd yn dangos gwarged o £100k oherwydd y cynllun pontio a weithredwyd yn ystod cyflwyno'r trefniadau Diwygio Lles, sy'n golygu nad yw'r galw hyd yma wedi cyrraedd y lefelau a ofnwyd. Fodd bynnag, bydd newidiadau deddfwriaethol yn dod i rym ar gyfer y pedwerydd chwarter ac mae'n anodd ceisio rhagweld effaith hynny.

**2.2** Rhagwelir gorwariant o £200k yng nghyllideb y Gwasanaethau Cymdeithasol ar gyfer Lleoliadau Allsirol oherwydd cynnydd yn y galw a ddaeth yn amlwg ar ddiwedd y flwyddyn ddiwethaf. Mae'r gwasanaeth wedi cychwyn adolygiad trwyadl sydd wedi gostwng y gorwariant £445k ar ddiwedd y flwyddyn ddiwethaf. Fodd bynnag, bydd y canlyniad terfynol yn dibynnu ar y galw am y gwasanaeth. Disgwylir y bydd yr elfen addysg o fewn y gyllideb.

**2.3** Disgwylir y bydd bwlch o £173k rhwng y budd-daliadau a dalwyd a'r cymhorthdal a dderbyniwyd. Mae hyn yn £145k yn waeth na'r gyllideb wreiddiol. Y prif reswm am hyn yw'r newidiadau yn y rheolau budd-daliadau lles ar gyfer llety gwely a brecwast i bobl ddigartref. Mae'r defnydd o lety gwely a brecwast wedi ei amlygu fel mater perfformiad y bydd angen rhoi sylw iddo.

**2.4** Disgwylir i'r Gyllideb Gorfforaethol a Democrataidd fod ar darged ar ddiwedd y flwyddyn. Fodd bynnag, mae llai o ansicrwydd yn awr mewn perthynas â'r "cyflogau" a delir i'r Aelodau ar ôl trosglwyddo cyfrifoldebau gan bod adroddiad drafft y Panel Annibynnol ar Gydnabyddiaeth Ariannol bellach i law.

**2.5** Disgwylir i'r gyllideb ar gyfer incwm o'r Dreth Gyngor gwrdd â'r targed erbyn diwedd y flwyddyn. Fodd bynnag, mae risg o dangyflawni'r cyllidebau incwm gan hyd at 0.5% neu £175k.

## 3. Y SEFYLLFA GYFREDOL

**3.1** Rhagwelir y bydd arbedion corfforaethol na chawsant eu cyflawni hyd at £460k o ganlyniad i oedi gyda phrosiectau o fewn y Rhaglen Blaenoriaethu Fforddiadwy: S3 - Pwrcasu £150k, S41 - Telerau ac Amodau Teithio Staff £230k ac S39 Trefniadau Gweithio Hyblyg £80k. Mae cynnydd yn cael ei wneud o ran telerau ac amodau staff, ond bydd angen cyflawni'r arbedion hyn i osgoi toriadau pellach yn y gwasanaeth a diswyddiadau.

**3.2** Sefydlwyd arian wrth gefn yn y gyllideb ar gyfer eleni. Mae'r cronfeydd hyn yn weddol fychan yn wyneb y risgiau i gyflawni'r targedau arbedion. Y prif gronfeydd wrth gefn yw:

- Cronfa wrth gefn ar gyfer llithriad ar raglenni arbedion - £355k;
- Cronfa wrth gefn ar gyfer contractau a aildendrwyd a materion eraill yr oedd ansicrwydd yn eu cylch ar adeg pennu'r gyllideb - £306K.

Ychwanegir arbedion na chyllidebwyd ar eu cyfer at y gronfa wrth gefn.

Yn ystod y flwyddyn hyd yma, gwariwyd £30k o'r gronfa wrth gefn ar gyfer contractau. Gwnaed arbediad hefyd o £70k yn sgil effaith aildendro'r rhaglen yswiriant am ran o'r flwyddyn.

**3.3** Mae prosiectau cydweithio a gymeradwywyd gan y Bwrdd Comisiynwyr yn mynd yn eu blaenau a disgwylir y bydd arbedion yn ystod y flwyddyn.

**3.4** Diswyddiadau: Cymeradwywyd cronfa wrth gefn unwaith ac am byth o £1.2m yng nghyllideb 2012-13. Mae hyn yn cael ei reoli gan y Tîm Arweinyddiaeth Uwch a rhagwelir ar hyn o bryd y bydd y diswyddiadau angenrheidiol dan y rhaglen arbedion yn cael eu rheoli o fewn y gronfa wrth gefn sydd ar gael.

## 4. PWYSAU A RISGIAU ARIANNOL YCHWANEGOL

**4.1** Mae risgiau ariannol yn cael eu trafod yn rheolaidd gan y rheolwyr a'u monitro gan y Bwrdd Cynaliadwyedd. Nodwyd themâu cyffredin y gellir rhoi sylw iddynt fel rhan o'r Adolygiadau Gwasanaeth sydd ar y gweill. Un maes lle mae pwysau ac y dygwyd sylw ato ar ôl pennu'r gyllideb oedd y newid hwyr yn y gyfradd yswiriant cenedlaethol. Effaith hynny yw cynnydd o £110k yn y costau staffio mewn cyllidebau nad ydynt yn ymwneud ag ysgolion.

**4.2** Mae'r Grant Cytundeb Canlyniadau wedi ei dalu ar lefel is dros y ddwy flynedd ddiwethaf oherwydd cwrdd yn rhannol â'r Cytundeb Canlyniadau gyda Llywodraeth Cymru. Disgwylir canlyniad llynedd erbyn diwedd mis Medi a hyd oni fydd y sefyllfa derfynol yn hysbys, rhagdybir mai dim ond 75% o'r grant a dderbynnir.

**4.3** Mae'r cynllun gweithredu mewn ymateb i'r arolygiad diweddar gan Estyn yn cael ei baratoi a bydd yn arwain at wariant ychwanegol. Rhagwelir y bydd cyfraniad o'r gronfa wrth gefn ar gyfer perfformiad ar gael.

## 5. Y SEFYLLFA GYFFREDINOL

**5.1** Mae risgiau sylweddol o orwario mewn pedair cyllideb gwasanaeth a allai fod cymaint â £1.8m ar y gwaethaf.

**5.2** Rhagwelir y bydd gorwariant o £245k yn y cyllidebau risg gorfforaethol.

**5.3** Disgwylir y bydd y llithriad net ar agweddau corfforaethol y rhaglen arbedion yn arwain at ddiffyg o £200k.

**5.4** Rhagwelir diffyg am y flwyddyn o hyd at £2.2m.

| **C – Goblygiadau ac Effaith** | | |
|---|---|---|
| 1 | **Cyllid / Adran 151** | |
| 2 | **Swyddog Cyfreithiol / Monitro** | |
| 3 | **Adnoddau Dynol** | |
| 4 | **Gwasanaethau Eiddo**<br>(Gweler y nodiadau – dogfen ar wahân) | |
| 5 | **Technoleg Cyfathrebu a Gwybodaeth** | |
| 6 | **Cydraddoldeb**<br>(Gweler y nodiadau – dogfen ar wahân) | |
| 7 | **Gwrthdlodi a Chymdeithasol**<br>(Gweler y nodiadau – dogfen ar wahân) | |
| 8 | **Cyfathrebu**<br>(Gweler y nodiadau – dogfen ar wahân) | |
| 9 | **Ymgynghori**<br>(Gweler y nodiadau – dogfen ar wahân) | |
| 10 | **Economaidd** | |
| 11 | **Amgylcheddol**<br>(Gweler y nodiadau – dogfen ar wahân) | |
| 12 | **Trosedd ac Anhrefn**<br>(Gweler y nodiadau – dogfen ar wahân) | |
| 13 | **Cytundebau Canlyniadau** | |

## CH – Crynodeb

Rhagwelir diffyg o £2.2m ar gyfer y flwyddyn fel a ganlyn:

Rhagwelir gorwariant o £245k yn y cyllidebau risg gorfforaethol.

Disgwylir y bydd llithriad ar agweddau corfforaethol y rhaglen arbedion yn arwain at ddiffyg o £480k. Bydd y gronfa wrth gefn a neilltuwyd i'r pwrpas hwn yn y gyllideb gyfredol yn cwrdd â'r diffyg hwn ynghyd â'r costau staffio na chawsant eu rhagweld yn sgil llithro gyda'r rhaglen diswyddiadau. Bydd arbedion yn sgil ail-drafod ac ail-dendro contractau hefyd yn cyfrannu. Rhagwelir diffyg net o £200k ar hyn o bryd.

Mae risgiau sylweddol o orwario mewn pedair o gyllidebau gwasanaeth a allai fod cymaint â £1.8m ar y gwaethaf.

Mae camau'n cael eu cymryd i ostwng y gorwariant posib ac mae angen adolygu hyn a dod ag ef i sylw'r aelodau ar sail reolaidd.

## D – Argymhelliad

Nodi'r adroddiad a chymeradwyo'r cynnig bod cynlluniau manwl yn cael eu paratoi ar gyfer pob un o'r meysydd risg uchod i'w monitro bob mis.

**Enw awdur yr adroddiad: EINIR WYN THOMAS**
**Teitl Swydd: PENNAETH GWASANAETH (CYLLID)**
**Dyddiad: 24 Awst 2012**

## Atodiadau:

A - Monitro Cyllideb Refeniw 2012-13 – Crynodeb.
B - Monitro Cyllideb Refeniw 2012-13 – Dadansoddiad fesul Gwasanaeth a Grŵp Gwariant – Gwariant yn erbyn Cyllideb Proffil

## Papurau Cefndirol:

**ATODIAD B**

## MONITRO CYLLIDEB REFENIW 2012-13

### Cyfnod i 30fed o Fehefin 2012

### Dadansoddiad fesul Gwasanaeth a Grwp Gwariant - Gwariant yn erbyn Cyllideb Proffil

| ADRAN | GWASANAETH | Gweithwyr | Adeiladau | Cludiant | Cyflenwadau a Gwasanaethau | Taliad Trydydd Parti | Taliadau Trosglwyddo | Costau Cefnogaeth | Cyfalaf | Arbedion i'w Darganfod | Incwm | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **Dysgu Gydol Oes** | Gwasanaeth Addysg - Cyllideb Ysgolion wedi'i Ddirprwyo | 1411 | 424 | -5 | -277 | 314 | 0 | 745 | 0 | 9 | -136 | 2485 |
| | Gwasanaeth Addysg - Eithriadau Ysgolion | 404 | -30 | 51 | -462 | -104 | 0 | 0 | 0 | 0 | -888 | -1029 |
| | Gwasanaeth Addysg - Addysg Bellach | 5 | 0 | 5 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 5 | 15 |
| | Gwasanaeth Addysg - Rheolaeth a Chefnogaeth | -38 | 13 | -2 | 6 | 1 | 0 | -43 | 0 | 0 | -305 | -368 |
| | Grant Effeithiolrwydd Ysgolion | 0 | 0 | 0 | 49 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 49 |
| | Hyfforddiant Môn | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| | Cymorth | -46 | 3 | 0 | -34 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 26 | -51 |
| | Addysg Oedolion | 0 | 0 | 0 | 5 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 5 |
| | Ieuenctid a Chymuned | 0 | 9 | -3 | -34 | -10 | 0 | 0 | 0 | 0 | 32 | -6 |
| | **Cyfanswm Addysg Gydol Oes** | **1736** | **419** | **46** | **-747** | **201** | **0** | **702** | **0** | **9** | **-1266** | **1100** |
| **Dirprwy Prif Weithredwr** | | | | | | | | | | | | |
| **- Adnoddau** | Gwasanaeth Cyllid - Cyllid | -107 | 0 | -1 | -3 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 20 | -91 |
| | Gwasanaeth Cyllid - Refeniw a Budd Daliadau | -12 | 0 | 0 | 34 | 0 | 0 | 0 | 0 | 15 | 128 | 165 |
| | Gwasanaeth Technolog Gwybodaeth a Chyfathrebu | 63 | 4 | -1 | 80 | 0 | 0 | 0 | 0 | 4 | 3 | 153 |
| | Gwasanaeth Polisi | -14 | 0 | 0 | 33 | 0 | 0 | 0 | 0 | 1 | 1 | 21 |
| | Gwasanaeth Archwilio | -15 | 0 | 0 | 17 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 2 |
| | Adnoddau Dynol | -24 | 3 | -2 | 44 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | -1 | 20 |
| **- Cyfreithiol a Gweinyddol** | Gwasanaethau Pwyllgorau a Chyfreithiol | 25 | 0 | -1 | 9 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | -100 | -67 |
| | Gwasanaethau Pwyllgorau a Chyfreithiol - Cyfieithu | 1 | 0 | 0 | 1 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 2 |
| | Gwasanaethau Pwyllgorau a Chyfreithiol - Etholiadau | 1 | 0 | 0 | -2 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | -1 |
| | Tìm Uwch Reolaeth | -38 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | -38 |
| | **Cyfanswm Dirprwy Prif Weithredwr** | **-120** | **7** | **-5** | **213** | **0** | **0** | **0** | **0** | **20** | **51** | **166** |
| **Datblygu Cynaliadwy** | Gwasanaeth Cynllunio - Gweinyddu | -6 | 0 | 0 | 4 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | -2 |
| | Gwasanaeth Cynllunio - Rheolaeth Cynllunio | 8 | 0 | -1 | 17 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | -27 | -3 |
| | Gwasanaeth Cynllunio - Rheolaeth Adeiladu | 1 | 1 | 0 | -5 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 10 | 7 |
| | Gwasanaeth Cynllunio - Eraill | -46 | 1 | -2 | -10 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 18 | -39 |
| | | | | | | | | | | 0 | 0 | 0 |
| | Gwasanaethau Amgylcheddol - Gweinyddu | 0 | 0 | 0 | -1 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | -1 |
| | Gwasanaethau Amgylcheddol - Iechyd yr Amgylchedd | -11 | 0 | -4 | 4 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | -28 | -39 |
| | Gwasanaethau Amgylcheddol - Safonau Masnach | 23 | 0 | 1 | 12 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | -8 | 28 |
| | Gwasanaethau Amgylcheddol - Marchnadoedd | 1 | -2 | 0 | -1 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 4 | 2 |
| | Gwasanaethau Amgylcheddol - Cofrestrydd | -1 | 0 | 0 | 1 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | -16 | -16 |
| | | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| | Gwasanaeth Eiddo - Gweinyddu | -35 | 0 | -1 | -15 | 0 | 0 | 0 | 0 | 11 | 0 | -40 |
| | Gwasanaeth Eiddo - Adeiladau Gweinyddol | 7 | 25 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | -13 | 19 |
| | Gwasanaeth Eiddo - Eiddo Amrywiol | 0 | -6 | 0 | 8 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | -5 | -3 |
| | Gwasanaeth Eiddo - Arfordir | -2 | -42 | -6 | -6 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 10 | -46 |
| | Gwasanaeth Eiddo - Stadau ddiwydiannol | 0 | 2 | 0 | -2 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 1 | 1 |
| | Gwasanaeth Eiddo - Mân Ddaliadau | 0 | 132 | 0 | 1 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | -4 | 129 |
| | Gwasanaeth Eiddo - Contract Glanhau | -27 | -3 | 1 | -11 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | -8 | -48 |
| | | | | | | | | | | 0 | 0 | 0 |
| | Gwasanaeth Priffyrdd a Thrafnidiaeth - Gweinyddu | 34 | 0 | 0 | 33 | 0 | 0 | 0 | 0 | 4 | 1 | 72 |
| | Gwasanaeth Priffyrdd a Thrafnidiaeth - Cludiant | 2 | 15 | 0 | 60 | -38 | -15 | 0 | 0 | 0 | -18 | 6 |
| | Gwasanaeth Priffyrdd a Thrafnidiaeth - Gweinyddu Gwaith | -25 | -2 | -5 | -15 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 55 | 8 |
| | Gwasanaeth Priffyrdd a Thrafnidiaeth - Strwythurau | 0 | 0 | 0 | 29 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 29 |
| | Gwasanaeth Priffyrdd a Thrafnidiaeth - Hawliau Tramwy Cyhoeddus | 29 | 0 | 1 | 43 | 0 | 0 | 10 | 0 | 0 | -10 | 73 |
| | Gwasanaeth Priffyrdd a Thrafnidiaeth - Traffig, Diogelwch y Ffyrdd a Parcio | -12 | 9 | 0 | -7 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 16 | 6 |
| | Gwasanaeth Priffyrdd a Thrafnidiaeth - Cynnal | 0 | 0 | 0 | -277 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | -277 |
| | Gwasanaeth Priffyrdd a Thrafnidiaeth - Goleuo | 0 | 0 | 0 | -73 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 1 | -72 |
| | Gwasanaeth Priffyrdd a Thrafnidiaeth- Gwaith Codir Amdano | 0 | 3 | 0 | 461 | 0 | 0 | 12 | 0 | 0 | -483 | -7 |
| | Gwasanaeth Priffyrdd a Thrafnidiaeth- Rheolaeth Fflyd | 34 | 2 | 36 | 1 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 73 |
| | Gwasanaethau Rheoli Gwastraff - Gwasanaethau Glanhau | 0 | 0 | 0 | -40 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | -40 |
| | Gwasanaethau Rheoli Gwastraff - Casglu a Gwaredu Gwastraff | -37 | 15 | -6 | -277 | -123 | 0 | -1 | 0 | 0 | -46 | -475 |
| | Gwasanaethau Rheoli Gwastraff - Cyflusterau Cyhoeddus | 0 | 14 | 0 | -8 | 4 | 0 | 0 | 0 | 5 | 0 | 15 |
| | Gwasanaeth Datblygu Economaidd | 245 | 4 | 4 | -70 | 0 | 0 | 0 | 0 | 4 | -140 | 47 |
| | **Cyfanswm Datblygu Cynaliadwy** | **182** | **168** | **18** | **-144** | **-157** | **-15** | **21** | **0** | **24** | **-690** | **-593** |
| **Cymuned** | Gwasanaeth Tai | 23 | -12 | 0 | -199 | -59 | 0 | -108 | 0 | 2 | 222 | -131 |
| | Gwasanaethau Cymdeithasol - Rheoli a Chefnogaeth | 1 | 0 | 1 | -14 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | -12 |
| | Gwasanaethau Cymdeithasol - Strategaeath Gwasanaeth | -24 | 0 | -1 | 59 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 34 |
| | Gwasanaethau Cymdeithasol - Plant a Theuleuodd | -51 | 2 | -9 | 117 | 96 | 0 | 0 | 0 | 0 | 12 | 167 |
| | Gwasanaethau Cymdeithasol - Gwasanaethau Henoed | 10 | 0 | 0 | 12 | 240 | 0 | 0 | 0 | 0 | -113 | 149 |
| | Gwasanaethau Cymdeithasol - Oedolion o Dan 65 Anableddau Corfforol | -1 | 0 | -1 | 11 | 2 | 0 | 0 | 0 | 0 | -3 | 8 |
| | Gwasanaethau Cymdeithasol - Anableddau Dysgu | 5 | -1 | -10 | 0 | -39 | 0 | 0 | 0 | 0 | 19 | -26 |
| | Gwasanaethau Cymdeithasol - Anghenion Iechyd Meddwl | 0 | 8 | -4 | 4 | 43 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 51 |
| | Gwasanaethau Cymdeithasol - Gwasanaethau Eraill | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| | Gwasanaethau Cymdeithasol - Cyflogaeth wedi'i Chynnal | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| | Gwasanaethau Gofal Môn | -397 | 65 | -73 | 186 | -5 | 0 | 0 | 0 | 26 | 397 | 199 |
| | Hamdden a Threftadaeth - Gweinyddu | 3 | 5 | 0 | 2 | 0 | 0 | 0 | 0 | 1 | -1 | 10 |
| | Hamdden a Threftadaeth - Llyfrgelloedd | -13 | 0 | -2 | -11 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 7 | -19 |
| | Hamdden a Threftadaeth - Diwylliant a Threftadaeth | 3 | 13 | 0 | -9 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 31 | 38 |
| | Hamdden a Threftadaeth - Gweinyddu | 3 | 4 | 0 | 1 | 0 | 0 | 0 | 0 | 2 | -1 | 9 |
| | Gwasanaethau Hamdden a Chymunedau - Hamdden a Chwaraeon | 16 | 16 | 5 | 17 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 30 | 84 |
| | Talnet | -1 | 0 | -1 | 154 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | -44 | 108 |
| | **Cyfanswm Cymuned** | **-423** | **100** | **-95** | **330** | **278** | **0** | **-108** | **0** | **31** | **556** | **669** |
| | **Cyllidebau sy'n cael eu trìn fel Risg Corfforaethol** | | | | | | | | | | | |
| | All Sirol Addysg | 0 | 0 | 0 | 0 | 201 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 201 |
| | All Sirol Gwasanaethau Cymdeithasol | 0 | 0 | 0 | 0 | -98 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | -98 |
| | Budd-daliadau | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 440 | 0 | 0 | 0 | 30 | 470 |
| | Digartrefedd | 0 | 2 | 0 | 2 | 0 | 132 | 0 | 0 | 0 | 12 | 148 |
| | Costau Corfforaethol a Democrataidd | -69 | -172 | -30 | -140 | 0 | 0 | 0 | 0 | 17 | -45 | -439 |
| | Cynnal a chadw Adeiliadau | 318 | 39 | 14 | 619 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | -505 | 485 |
| | **CYFANSWM FESUL GRWP** | **1624** | **563** | **-52** | **133** | **425** | **557** | **615** | **0** | **101** | **-1857** | **2109** |